| Risg | Ffocws y Risg | Targed Sgôr y Risg | Sgôr Risg Cyfredol | Statws Presennol | Corff Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| G.7 | Methu gweithredu'n effeithlon oherwydd digwyddiadau na ellir eu rheoli | 8 | 8 | | HA | • Dim newidiadau o bwys i'r risg, mae PPC wedi parhau i weithio'n effeithiol er gwaethaf COVID-19.<br>• Bydd PPC yn llunio Cynllun Adfer ar ôl Trychineb PPC, a bydd gweithdrefnau presennol yr Awdurdod Lletya a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn dylanwadu'n drwm arno.<br>• Bydd yr Awdurdod Lletya hefyd yn gofyn i gyflenwyr allweddol PPC am eu cynlluniau adfer ar ôl trychineb er mwyn sicrhau bod ganddynt weithdrefnau digonol hefyd. |
| G.8 | Trefniadau llywodraethu yn arwain at reolaeth a phenderfyniadau aneffeithlon | 8 | 4 | | Ymgynghorydd Trosolwg | • Mae PPC wedi sefydlu nifer o reolaethau risg ychwanegol ar ffurf polisïau a gweithdrefnau llywodraethu ychwanegol.<br>• Mae PPC yn adolygu ei Gytundeb Rhwng Awdurdod ac aelodaeth ei Gydbwyllgor Llywodraethu, disgwylir y bydd y broses adolygu hon yn arwain at fân newidiadau i drefniadau llywodraethu PPC.<br>• Unwaith y bydd y newidiadau hyn wedi dod i rym, bydd PPC yn asesu p'un a yw'r newidiadau wedi arwain at unrhyw aneffeithlonrwydd tymor byr neu hirdymor, ac os na chaiff unrhyw aneffeithlonrwydd ei adnabod, bydd PPC yn gostwng y sgôr risg cyfredol i 4. |
| G.9 | Dim modd cysoni gwahaniaeth barn / safbwyntiau | 15 | 10 | | Gweithgor Swyddogion | • Mae'r risg wedi'i adolygu i fyny gan gydnabod y potensial am fwy o anghytundeb rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol mewn perthynas â'u hinsawdd risg / gofynion a dyheadau buddsoddi cyfrifol ar lefel lleol.<br>• Mae PPC yn cynyddu ei lefelau ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae PPC wedi ymrwymo i gynnal ymarfer Ymgynghori Blynyddol gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch Hinsawdd Risg/ Buddsoddi Cyfrifol, ac mae hefyd wedi llunio Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC sy'n cynnwys o leiaf un cynrychiolydd o bob Awdurdod Cyfansoddol.<br>• Bydd PPC yn adolygu p'un a yw'r ddau fesur lliniaru ychwanegol yma wedi bod yn effeithiol, cyn ystyried a ddylid gostwng y tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd i 2. |
| G.10 | Cyflenwyr yn methu â chyflawni eu hymrwymiadau contractiol. | 8 | 8 | | Gweithgor Swyddogion | • Mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hwn yn digwydd wedi ei ostwng o 3 i 2, mae'r sgôr risg bellach yn cyd-fynd â'r targed. Adolygwyd y risg yn is oherwydd yr amser, adnoddau a'r arbenigedd mae'r Awdurdod Lletya wedi eu hymrwymo i ymgysylltu'n aml ac yn helaeth gyda chyflenwyr PPC. |
| G.11 | Cyflenwyr yn methu â chyflawni penderfyniadau PPC yn amserol ac yn effeithiol | 12 | 8 | | GS ac Ymgynghorydd Trosolwg | • Mae creu Is-grwpiau PPC wedi lleihau'n sylweddol y tebygolrwydd o'r risg hwn yn digwydd. Mae PPC yn credu bod angen gweithredu pellach cyn bod modd gostwng y sgôr o 3 i 2.<br>• Bydd PPC yn canolbwyntio ar gyfathrebu'n effeithiol o ran pwysigrwydd ac amserlenni gofynnol unrhyw gais/benderfyniad i'w gyflenwyr, gyda'r bwriad o sicrhau bod penderfyniadau / camau gweithredu hollbwysig yn cael eu blaenoriaethu dros y gofynion 'dydd i ddydd' a wna'r cyflenwyr ar ran PPC.<br>• Yn ogystal, mae PPC yn gweithio gyda'i Weithredwr i wella'r mecanweithiau cyfathrebu ar gyfer lansio Is-gronfeydd. |
| G.12 | Y Gweithredwr yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau contractiol neu'n stopio darparu gwasanaethau Gweithredwr | 15 | 10 | | Gweithgor Swyddogion | • Dim newidiadau o bwys i'r sgôr, fodd bynnag, ers yr adolygiad diwethaf mae PPC wedi sefydlu Cynllun Gwaith Gweithredwr er mwyn monitro'r gwahanol ffrydiau gwaith mewn perthynas â Goruchwylio'r Gweithredwr.<br>• Mae'r Awdurdod Lletya, gyda chymorth gan ei Ymgynghorydd Trosolwg Gweithredwr, yn parhau i gael cyfarfodydd adolygu rheolaidd gyda'r Gweithredwr.<br>• Y prif ffrwd gwaith sy'n cael ei datblygu yn ystod y cyfarfodydd adolygu hyn yw llunio Pecyn estynedig o Adrodd Gwybodaeth gan Reolwyr y Gweithredwr. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| G.13 | Data cyfrinachol / masnachol sensitif yn cael ei ryddhau, ei ddwyn neu ei gamleoli | 10 | 10 | ☞ | Gweithgor Swyddogion | • Risg newydd a grëwyd y chwarter hwn. Crëwyd y risg i amlygu'r gwahanol risg a wynebir o ran torri data cyfrinachol/masnachol sensitif o gymharu â thor-data personol.<br>• Byddwn yn gofyn i bob Awdurdod Cyfansoddol sut maent yn trin data cyfrinachol/masnachol sensitif ar lefel lleol, a pha weithdrefn sydd ganddynt ar waith.<br>• Bydd PPC yn marcio'n glir unrhyw ddata cyfrinachol/masnachol sensitif mae'n ei rannu, a bydd yn gofyn i ymgynghorwyr a darparwyr allanol wneud yr un fath. |
| G.14 | PPC yn methu ag adnabod a chymryd mesurau i gywiro camymarfer | 10 | 5 | 👎 | Gweithgor Swyddogion | • Risg newydd ar gyfer y chwarter hwn, mae angen mesurau lliniaru risg ychwanegol fel bod y risg hwn yn cyd-fynd â'r targed. Bydd PPC yn:<br>• Llunio gweithdrefn i sicrhau bod gan Bersonel y gallu a'r modd i dynnu sylw at unrhyw bryderon ynghylch camymarfer posib<br>• Llunio Polisi Canu'r Gloch wedi'i godio<br>• Darparu hyfforddiant parhaus ar adnabod camymarfer a sut i godi pryderon yn ddiogel ynghylch camymarfer<br>• Sicrhau bod digon o adnoddau ac arbenigedd ar gael i ymchwilio i ac ymdrin ag unrhyw achosion posib |